

Canllaw ar gyfer Plentyn/Person Ifanc sy'n Derbyn Gofal

Mae'r gwybodaeth yma ar gael yn Saesneg.

Beth mae 'derbyn gofal' yn ei olygu?

Mae derbyn gofal yn golygu bod yr awdurdod lleol yn helpu i wneud yn siŵr dy fod yn cael dy edrych ar dy ôl yn iawn. Byddant yn dy helpu di, dy rieni a phobl eraill yn y teulu ac yn gweithio efo pobl eraill yn dy fywyd. Mae hefyd yn golygu y byddi di'n byw oddi cartref, oherwydd, ar y funud, nid yw'n bosib i dy rieni edrych ar dy ôl di yn y ffordd maent i fod i'w wneud. Weithiau mae hyn yn cael ei alw'n 'bod mewn gofal'.

Mae hyn yn gallu bod mewn cytundeb efo dy rieni neu achos ein bod ni'n meddwl ei bod hi'n fwy diogel ar dy gyfer di. Pan rydym yn trefnu i blant a phobl ifanc fyw oddi cartref, mae'r gyfraith yn eu galw nhw'n 'blant sy'n derbyn gofal' Weithiau bydd oedolion yn defnyddio'r gair 'LAC' yn lle.

Weithiau mae rhai plant yn aros mewn gofal am gyfnod byr, ac eraill yn aros yn hirach. Os yw'n bosib, byddwn yn gweithio gyda thi a dy rieni er mwyn i ti gael mynd yn ôl adref, ond mae'n rhaid i ni fod yn siŵr mai dyna'r peth gorau i'w wneud a'i bod hi'n ddiogel ar dy gyfer di.

Pam dy fod yn derbyn gofal?

Mae nifer o resymau gwahanol pam na all plant a phobl ifanc fyw gyda'u teuluoedd. Weithiau, mae rhieni'n gofyn am help achos eu bod yn teimlo o dan bwysau ac nid ydynt yn gallu edrych ar ôl eu plant yn y ffordd orau bosib neu efallai ei bod hi'n fwy diogel i blentyn beidio â byw gartref.

Dy Weithiwr Cymdeithasol

Bydd dy Weithiwr Cymdeithasol yn cwblhau asesiad o dy anghenion di, a gyda dy help, yn creu Cynllun Gofal a Chefnogaeth ar dy gyfer. Byddant hefyd yno i helpu a dy gefnogi a byddant yn:-

- Dod i dy weld ac egluro pam dy fod yn 'derbyn gofal'.
- Dweud wrthyf am ba mor hir y byddi'n 'derbyn gofal' a beth yw'r cynlluniau hir dymor.
- Gwneud yn siŵr dy fod yn deall beth sy'n digwydd a pham ei fod yn digwydd a dy helpu efo unrhyw broblem.
- Dod i dy weld yn yr wythnos gyntaf wedi i ti symud i gartref maeth neu leoliad newydd.
- Siarad efo chdi ar dy ben dy hun.

Canllaw ar gyfer Plentyn/Person Ifanc sy'n Derbyn Gofal

- Siarad am dy ddiddordebau, y pethau rwy'ti'n eu mwynhau ac yn dda am eu gwneud neu unrhyw beth rwy'ti'n anhapus amdano.
- Dweud wrthy't sut i gadw mewn cysylltiad os oes angen.
- Gofyn dy farn am bethau.
- Gwneud yn siŵr dy fod yn rhan o'r penderfyniadau amdanat ti.

Os wyt ti eisiau siarad efo rhywun am dy sefyllfa, mi fedri di siarad efo dy ofalwyr, Gweithiwr Cymdeithasol neu rywun arall rwy'ti'n ymddiried ynddo, neu mi fedri di ofyn i siarad efo rhywun cwbl annibynnol.

Beth i'w ddisgwyl gan dy Weithiwr Cymdeithasol?

- Mae'n rhaid i dy Weithiwr Cymdeithasol dy weld ar dy ben dy hun.
- Byddant yn ateb unrhyw gwestiwn am fyw oddi cartref.
- Byddant yn egluro beth fydd yn digwydd nesaf.

Pa mor aml fyddi di'n gweld dy Weithiwr Cymdeithasol?

Bydd dy Weithiwr Cymdeithasol yn dod i dy weld o fewn yr wythnos gyntaf o dderbyn gofal a bydd nifer yr ymweliadau wedyn yn dibynnu ar y cynllun sy'n cael ei greu ar dy gyfer.

Dy Gynllun Gofal a Chefnogaeth?

Os wyt yn derbyn gofal, mae'n rhaid gwneud cynlluniau ar gyfer yr holl bethau pwysig yn dy fywyd. Y prif gynllun yw dy Gynllun Gofal a Chefnogaeth, sef gwybodaeth ysgrifenedig sydd yn dweud sut y dylet ti dderbyn gofal a disgrifio dy gynlluniau ar gyfer y dyfodol. Bydd genny't gynlluniau eraill hefyd, fel lle y byddi'n byw, dy iechyd a dy addysg. Dylai'r cynlluniau i gyd gysylltu efo'i gilydd i wneud yn siŵr dy fod yn cael yr holl help a chymorth rwy'ti ei angen tra dy fod yn derbyn gofal.

Bydd dy Gynllun Gofal a Chefnogaeth yn cynnwys:-

- Pam dy fod yn derbyn gofal, beth sydd angen digwydd er mwyn i ti gael mynd adref neu os nad wyt yn gallu mynd adref beth yw'r cynllun hir dymor neu barhaol.
- Dy ddymuniadau a dy deimladau.
- Cyswllt gyda dy deulu a dy ffrindiau.
- Dy iechyd.
- Addysg a hyfforddiant.
- Sut yr hoffet ddilyn dy grefydd, dy gredoau a dy ddiwylliant.
- Hobïau a diddordebau.
- Beth fydd pobl (e.e. Gweithwyr Cymdeithasol a Gofalwyr Maeth) yn ei wneud i dy helpu a dy gefnogi.
- Beth yw dy gynlluniau rŵan ac ar gyfer y dyfodol.

Canllaw ar gyfer Plentyn/Person Ifanc sy'n Derbyng Gofal

- Beth yw dy anghenion di.

Bydd dy Gynllun Gofal a Chefnogaeth yn cael ei wirio yn dy gyfarfodydd Adolygiad Plant sy'n Derbyng Gofal, i weld sut mae'r cynlluniau'n mynd a gweld os oes angen gwneud unrhyw newidiadau.

Dy gyfarfodydd Adolygiad Derbyng Gofal?

Tra dy fod yn derbyn gofal, bydd cyfarfodydd pwysig iawn o'r enw Adolygiadau. Bydd y cyfarfod Adolygiad Plant sy'n Derbyng Gofal yn gyfle i bawb drafod dy leoliad, y cynlluniau sy'n cael eu gwneud ar dy gyfer tra dy fod yn derbyn gofal a sut rwyd yn ymdopi. Byddant hefyd yn gofyn am dy farn ar le a sut mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal.

Bydd Swyddog Adolygu Annibynnol yn y cyfarfod hefyd i wneud yn siŵr fod pawb yn gwrando ar dy farn a beth sydd gen ti i'w ddweud nes dy fod yn 18 mlwydd oed. Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal fel a ganlyn:-

- Dylai'r cyfarfod cyntaf gael ei gynnal o fewn 20 diwrnod o pan ddechreuaist dderbyn gofal.
- Bydd y cyfarfod nesaf 3 mis ar ôl hynny.
- Bydd y cyfarfod wedyn yn cael ei gynnal bob 6 mis.

Beth yw Eiriolwr?

Nid yw eiriolwr yn gweithio i Gwasanaethau Addysg a Phlant. Unigolyn ydyw sydd yno i dy helpu di ac eraill gael dweud eich dweud. Mae eiriolwr yno i dy helpu di a fydd ond yn dweud wrth y bobl yn yr adolygiad yn union beth yr wyt ti wedi dweud wrtho am ei ddweud. Os wyt eisiau eiriolwr yna rhaid cysylltu efo dy Weithiwr Cymdeithasol neu Swyddog Adolygu Annibynnol.

Dy Addysg

Mae'n rhaid i'r holl blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal fod â Chynllun Addysgol Personol. Bydd yn dweud sut y bydd dy ysgol neu goleg, gofalwr ac awdurdod lleol yn dy gefnogi di i wneud dy orau tra dy fod yn derbyn addysg. Gall hyn olygu dy fod â hawl i dderbyn cefnogaeth ychwanegol i dy helpu efo dy addysg. Gall hyn olygu tiwtor neu fentora neu gall olygu derbyn arian i helpu efo costau llyfrau, cyfarpar neu deithio.

Cadw'n Iach

Mae dy iechyd yn bwysig iawn. Mae bod yn iach yn golygu mwy na bwyta llwyth o lysiau. Mae'n golygu cadw dy ddannedd yn lân, profion llygaid rheolaidd, a gwneud yn siŵr dy fod wedi derbyn dy bigiadau i gyd.

Canllaw ar gyfer Plentyn/Person Ifanc sy'n Derbyngofal

Pan yr wyt yn derbyn gofal, bydd yn rhaid i ti gael 'Asesiad Iechyd' gan ddoctor neu Nyrs ar gyfer Plant a phobl ifanc Sy'n Derbyngofal (Nyrs LAC). Bydd y Nyrs yn dy helpu i gadw'n iach drwy wneud yn siŵr dy fod yn gweld doctor, deintydd ac optegydd yn rheolaidd.

Gwrando arnat ti a dweud dy ddweud

Pan yr wyt yn derbyn gofal mae nifer o benderfyniadau yn cael eu gwneud amdanat a dy fywyd. Mae'n rhaid i'r bobl sy'n gyfrifol am dy ofal wneud yn siŵr eu bod yn gwybod y farn, dy ddymuniadau a dy deimladau am bob dim sy'n ymwneud efo ti. Byddant yn gwrando ar dy farn, ac yn ei gymryd o ddifri, cyn dod i unrhyw benderfyniad.

Cofia ddweud dy ddweud drwy:-

- Siarad efo dy Weithiwr Cymdeithasol neu ofalwyr.
- Llenwi Ffurflen Ymgynghori i baratoi ar gyfer fy Adolygiad Plant sy'n Derbyngofal.
- Mynd i'r cyfarfodydd adolygu neu siarad efo'r Swyddog Adolygu Annibynnol.
- Gwneud Cwyn.
- Defnyddio eiriolwr annibynnol.

Beth sy'n digwydd pan yr wyt yn cyrraedd 16+?

Cyn dy ben-blwydd yn 16 mlwydd oed byddwn yn dechrau cynllunio ar gyfer dy annibyniaeth a chreu Cynllun Llwybr sy'n debyg iawn i'r Cynllun Gofal a Chefnogaeth. Bydd dy ofalwyr a dy Weithiwr Cymdeithasol yno i dy gefnogi a dy helpu drwy ddysgu sgiliau byw a sut i fyw ar dy ben dy hun os mai dyna'r wyt yn dymuno ei wneud.

Am fwy o wybodaeth edrycha ar Ganllaw Pobl Ifanc ar Adael Gofal

Gwybod dy hawliau

Mae gennyt ti hawliau. Mae gan bob plentyn a pherson ifanc o dan 18 mlwydd oed hawliau, dim ots pwy wyt ti, lle rwyd ti'n byw a beth yw dy sefyllfa. Mae'n bwysig dy fod yn gwybod beth yw dy hawliau, felly y byddi'n ymwybodol os nad wyt yn cael dy drin yn gywir.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP yn fyr) yn restr o 42 o addewidion mae llywodraethau wedi'u gwneud i blant a phobl ifanc sy'n trafod dy hawliau, sef:-

- Cael dy drin â pharch.
- Dweud dy ddweud am y penderfyniadau sy'n dy effeithio di.
- Parch tuag at dy iaith, diwylliant, hil, rhyw, rhywioldeb a chrefydd.
- Cael bywyd preifat.
- Dy warchod rhag cael dy frifo neu dy drin yn wael.

Canllaw ar gyfer Plentyn/Person Ifanc sy'n Derbynn Gofal

- Addysg a gofal iechyd.
- Lle diogel i fyw.
- Peidio â chael dy gosbi mewn ffordd greulon neu gas.

Beth i'w wneud os yr wyt yn anhapus?

Lle bynnag rwyd ti'n byw, mae'n bwysig dy fod yn teimlo'n ddiogel a bod rhywun yn edrych ar dy ôl. Ond rhaid cofio does neb yn berffaith ac efallai bydd adegau pan nad wyt yn hoffi pawb rwyd ti'n byw gyda nhw neu efallai dy fod yn anhapus am rhyw benderfyniad sydd wedi'i wneud. Os yw hyn yn digwydd, y peth gorau i'w wneud yw dweud wrth unigolyn rwyd ti'n ymddiried ynddo er mwyn iddyn nhw allu dy helpu di ddatrys unrhyw broblem. Mae'n hawdd siarad efo'r unigolyn sy'n gofalu amdanat, dy Weithiwr Cymdeithasol, dy Swyddog Adolygu Annibynnol neu unrhyw unigolyn arall rwyd ti'n ymddiried ynddo.

Os wyt yn anhapus gyda'r hyn mae unrhyw berson sy'n gweithio gyda ti wedi ei wneud, mae gennyd hawl i wneud cwyn. Gelli cysylltu â'r Swyddog Cwynion mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol neu gofynna i dy Weithiwr Cymdeithasol neu eiriolwr i dy helpu i wneud hyn:-

Rhif rhadffôn: 0800 032 1099

E-bost: ssdcomments@denbighshire.gov.uk

Ysgrifennwch at: Swyddog Cwynion - Ty Russell, Ffordd Churton, Y Rhyl, Sir Ddinbych.
LL18 3DP

We: sirddinbych.gov.uk/eichllais

Gall y gwybodaeth yma fod ar gael mewn ieithoedd a/neu fformatau eraill ar gais.